**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mawrth 2011**

**ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol, sydd ynghlwm fel atodiad 1, ynghyd â'r llythyr ateb sydd ynghlwm fel atodiad 2.

## Y CEFNDIR

2 Yn dilyn dyfodiad y Mesur Llywodraeth Leol 2009, mae gofyn bellach i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio Adroddiad Gwella Blynyddol ynglŷn â pha mor dda y mae awdurdodau cyhoeddus yn gwella eu gwasanaethau. Yr adroddiad sydd ynghlwm yw'r cyntaf o'i fath.

3 Yn y blynyddoedd i ddod, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud asesiad llawn o'r modd y mae awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn perfformio.

## GWYBODAETH

4 Prif neges yr adroddiad yw bod arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliannau yn y dyfodol, er y cydnabyddir bod yr Awdurdod yn wynebu rhai heriau.

5 Roedd yr adroddiad yn gwneud dau gynnig newydd y dylai'r Awdurdod:

- "[d]datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig ymhellach er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned;
- parhau i flaenoriaethu gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gall gyfrannu at wneud y ffyrdd yn ei ardal yn fwy diogel."

6 Bu'r Panel Gweithredol yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 7fed Chwefror, ac roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad ar y cyfan ond yn mynegi pryder ynglŷn â'r ail gynnig, sef y dylai'r Awdurdod flaenoriaethu gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd er nad oes ganddo brif gyfrifoldeb am y mater hwn. Mynegwyd y pryder hwn yn y llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol, sydd ynghlwm fel atodiad 2.

**ARGYMHELLIAD**

7 Argymhellir nodi er gwybodaeth yr Adroddiad Gwella Blynyddol fel y'i cyhoeddwyd ar 31ain Ionawr 2011.

**ATODIAD 2**

14eg Mawrth 2011

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Annwyl Mr Thomas

**Adroddiad Gwella Blynyddol**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o dderbyn yr Adroddiad Gwella Blynyddol fel y'i cyhoeddwyd ar 31ain Ionawr.

Mae'r adroddiad wedi cael ei drafod gan y Panel Gweithredol, ac mae ein hymateb i'r cynigion sydd ar dudalen 19 o'r adroddiad fel a ganlyn:

**Cynigion a wnaed mewn gwaith cynharach**

Pwynt bwled 1 – trafodwyd hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Hydref 2010, pryd y cydnabu Lisa Williams y gallai cael dau bwyllgor gwahanol i fonitro perfformiad fod yn beth buddiol. Mae'r drefn y cytunwyd arni i wahanu pwerau a rolau'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn glir a heb achosi dryswch hyd yn hyn. Byddwn yn parhau i reoli rhaglenni gwaith ar gyfer y ddau bwyllgor. Nid ydym yn bwriau newid y trefniadau a gyflwynwyd, ac rydym yn gweld risg isel / dim risg yma.

Pwynt bwled 3 – mae gennym hyder yn ein trefniadau ar gyfer gwella er mwyn sicrhau bod y prosiectau sydd gennym ar y gweill yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus, ac mae hwn yn faes sy'n parhau i fod yn waith sydd wrthi'n mynd rhagddo.

Pwynt bwled 4 – ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu ym mis Tachwedd, mae'r Awdurdod wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i ofynion o ran y gyllideb ac adnoddau yn y dyfodol.

Mae cynllun a strategaeth ariannol tymor canolig wedi eu mabwysiadu er mwyn pennu cyfarwyddyd digonol, a byddant dan adolygiad parhaus gan swyddogion, gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau er gwybodaeth.

**Y cynigion newydd**

Pwynt bwled 1 – fel pwynt bwled 4 uchod. Hefyd, datblygwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Cymunedau Mwy Diogel) a fydd yn cynorthwyo gyda'r gwaith o werthuso effaith ein gwaith yn y gymuned.

Pwynt bwled 2 – Mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig hwn. Rôl gyfrannol tuag at weithgarwch diogelwch ar y ffyrdd sydd gan yr Awdurdod, yn hytrach na phrif gyfrifoldeb, ac mae ei waith yn y maes hwn yn digwydd mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill. Tra bo'r Aelodau'n fodlon derbyn y cynnig, mae ganddynt rai pryderon ynglŷn â'r modd y bydd rhan yr Awdurdod yn cael ei fesur medwn perthynas â gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Byddwch yn ymwybodol o waith yr Awdurdod mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau ar draws Gogledd Cymru, ac felly byddwch yn cydnabod y gallai perfformiad partneriaid ardaro ar ein gwaith ni.

Bydd yr adroddiad ynghyd â'r llythyr hwn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

Yn gywir

Sharon Frobisher
**Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**